# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

11.12.2021

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau trwy We-Ddarlledu o Bell ar, Dydd Iau, 16 Rhagfyr 2021 am 2.00 pm i drafod y materion canlynol:**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio)**

3. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2021 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion (Tudalennau 3 - 6)**

4. **Derbyn adroddiad ar Ymgynghoriad ynghylch adleoli dwy goflech sy'n gofebau rhyfel yn Hen Ysgol, Tregaron (Tudalennau 7 - 10)**

5. **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

LEdwards

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR YMDDIRIEDOLWYR ELUSENNAU a gynhaliwyd drwy fideo-gynhadledda ddydd Iau, 8 Gorffennaf 2021**

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Rowland Rees-Evans (Cadeirydd); y Cynghorwyr Bryan Davies, Euros Davies, Elaine Evans, Mark Strong, Wyn Thomas ac Ivor Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Elizabeth Evans (Sylwedydd ac Aelod o adolygiad yr Is-grŵp), y Cynghorydd Keith Evans (Aelod o adolygiad yr Is-grŵp) a'r Cynghorydd Rhodri Evans.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Louise Harries, Cyfreithwraig; Tom Williams Syrfëwr Gwerthiannau a Chaffaeliadau; Eirian Jones, Rheolwr Cynnal a Chadw Adeiladau; a Nia Jones, Gwasanaethau Democrataidd.

(10.00 -10.50 am)

**Gweithdrefn**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**1 Ymddiheuriadau**

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Marc Davies a Lyndon Lloyd MBE am nad oedd modd iddynt fod yn y cyfarfod.

**2 Datgelu buddiant personol**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol na buddiannau sy'n rhagfarnu.

**3 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2019 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2019 yn gywir.

***Materion yn codi***

Nid oedd dim materion yn codi.

**4 Derbyn Adroddiad ynghylch cyn Ysgol Uwchradd Tregaron**

Nodwyd bod y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau, yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd 2019, wedi penderfynu rhoi'r eiddo ar y farchnad drwy'r Adain Ystadau gan ofyn am gynigion o oddeutu £160,000; defnyddio'r arian a geir drwy werthu'r eiddo i dalu ffioedd yr Adain Ystadau, sef 1% o'r gwerthiant ynghyd â chost yr adroddiad Tystysgrif Perfformiad Ynni; a rhoi dirprwyaeth i is-grŵp ystyried unrhyw gynigion a ddaw i law.

Yr oedd is-grŵp a oedd yn cynnwys y Cynghorwyr Elizabeth Evans, Keith Evans ac Ivor Williams wedi cwrdd ym mis Mehefin eleni i drafod cynnig diamod a ddaeth i law. Nododd y Cynghorydd Elizabeth Evans fod yr is-grŵp wedi craffu ar bob llwybr posib, ac argymhellodd y dylai'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau fwrw ymlaen â'r gwerthiant oherwydd bod yr adeilad yn dirywio'n ddifrifol ac yn barhaus, a'r diffyg arian ar gyfer ei gynnal a'i gadw. Dywedodd fod cwynion wedi dod i law ynghylch llystyfiant yn tyfu'n wyllt.

Rhoddodd Louise Harries wybod i'r pwyllgor am ddau fater sy'n ymwneud â'r eiddo hwn:

a) Mae sawl plac hanesyddol wedi'u gosod ar y waliau y tu fewn yr adeilad. Maent yn ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf, yr Ail Ryfel Byd a Phrifathrawon a fu. Nodwyd bod adroddiad a ddarparwyd gan Dr Robert Anthony yn 2017 wedi rhoi braslun o'r rheolau ynghylch adleoli'r placiau hyn, gan gynnwys ymgynghori i ddod o hyd i leoliad addas a rhoi gwybod i'r Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel. Nodwyd y byddai ymgynghoriad yn digwydd yn amodol ar benderfyniad i fwrw ymlaen â'r gwerthiant.
b) Nodwyd bod eiddo cyfagos yn methu agor ffenest o achos y llystyfiant sy'n tyfu'n wyllt, ac argymhellir bod yr adran Ystadau yn cael eu cyfarwyddo i wneud ychydig o glirio er mwyn gwaredu â'r rhwystr hwn.

Atgoffwyd yr Aelodau fod yn rhaid iddynt bwyso a mesur bob amser yr hyn sydd er lles pennaf yr elusen wrth iddynt wneud penderfyniadau ac y byddai bwrw ymlaen yn galluogi'r elusen i droi gwerth yr ased yn arian fel y gellir defnyddio'r enillion at amcanion yr elusen, sef hybu addysg i blant cyn oed ysgol ac oed ysgol yn Nhregaron.

**5 Atodiad A yn berthnasol i'r Adroddiad uchod (Gwaharddwyd)**

Nid yw'r adroddiad sy'n ymwneud ag eitem 5 ar yr agenda, Atodiad A, ar gael i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd a'r wasg eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno, yn unol ag Adran 100B(2) o'r Ddeddf.

Gofynnwyd i'r Aelodau, wrth ymdrin â'r eitem hon, ystyried a ddylid eithrio'r cyhoedd a'r wasg o'r Cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** eithrio'r cyhoedd a'r wasg yn ystod y drafodaeth am eitem 5 ar y sail bod y cais yn cynnwys gwybodaeth a oedd yn ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys y Cyngor) na ddylid, rhwng popeth, gael eu datgelu i'r cyhoedd a'r wasg.

Ystyriodd y Pwyllgor y cynnig diamod a ddaeth i law, cyn dychwelyd i gyfarfod agored i bleidleisio ar yr argymhellion.

Ar ôl trafod a phleidleisio, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor:

a) dderbyn y cynnig i brynu Hen Ysgol Tregaron;
b) penderfynu bod y Swyddogion, ar ran yr ymddiriedolaeth, yn dod i gytundeb ac yn cwblhau'r holl ddogfennaeth a materion ategol angenrheidiol, er mwyn bwrw ati i werthu'r eiddo;
c) creu is-grŵp a fydd yn cael ei ddirprwyo, ar ôl gwerthu'r eiddo, i ystyried argymhellion ynghylch sut i ddefnyddio unrhyw gyfalaf neu incwm sydd ym meddiant yr elusen a hynny er mwyn cyflawni amcanion yr elusen. Rhoddir gwybod i gyfarfod y Pwyllgor

Ymddiriedolwyr Elusennau am unrhyw argymhellion a ddaw o'r is-grŵp, er mwyn iddynt eu hystyried ac i benderfynu yn eu cylch. Caiff aelodau'r is-grŵp eu henwebu maes o law.

**6 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

Nid oedd dim materion eraill i'w hystyried.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau a gynhaliwyd ar 16.12.2021**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:_________________**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 4

# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **16/12/2021** |
| **Teitl:** | **Coflechi Rhyfel Tregaron – Canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch adleoli'r coflechi rhyfel** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae'n siŵr y bydd yr Aelodau'n cofio, er mwyn bwrw ymlaen â chwblhau'r gwerthiant ar gyfer Hen Ysgol Tregaron mae angen adleoli'r 3 llechen ynghylch cyn-benaethiaid yr ysgol a'r 2 goflech ryfel sy'n coffáu cyn-ddisgyblion a gollodd eu bywydau yn y ddau Ryfel Byd.

1.2 Mae Pennaeth Ysgol Henry Richard wedi cytuno mewn egwyddor i adleoli'r llechi ynghylch y cyn-benaethiaid yn Ysgol Henry Richard.

1.3 Fodd bynnag, mae adleoli'r 2 goflech ryfel ychydig yn fwy cymhleth gan eu bod yn 'gofebion rhyfel' ac maent wedi'u cofnodi yn Rhestr Genedlaethol Cofebion Rhyfel y Deyrnas Unedig o dan y cyfeirnodau 36744 a 36745 www.ukniwm.org.uk







1.4 Yn unol â chanllawiau'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel ynghylch adleoli cofebion rhyfel, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus i ofyn i drigolion lleol awgrymu safleoedd addas ar gyfer eu hadleoli.

1.5 Lansiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar wefan y Cyngor ar 1 Tachwedd 2021 ac roedd yn fyw am bedair wythnos. Mae'n bosib bod yr Aelodau wedi gweld erthygl yn y Cambrian News ynghylch yr ymgynghoriad yn dilyn datganiad i'r wasg gan Dîm Cyfathrebu'r Cyngor neu efallai y gwelwyd sôn am yr ymgynghoriad ar dudalen Facebook y Cyngor. Hefyd, 'tagiodd' y Tîm Cyfathrebu nifer o grwpiau lleol yn Nhregaron yn y neges er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r ymgynghoriad.

1.6 Hefyd, hysbysebwyd yr ymgynghoriad ar dudalen Facebook Cyngor Tref Tregaron a Digiboard a chysylltwyd yn uniongyrchol â nifer o grwpiau er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ymgynghoriad a'u bod yn gallu cymryd rhan, er enghraifft:

- Ysgol Henry Richard;
- Pwyllgor Cyn-ddisgyblion Tregaron;
- Fforwm Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog;
- Neuadd Goffa Tregaron.

**2. CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD**

2.1 Gweler Atodiad 1

**3. ARGYMHELLION**

3.1 Gan fod y coflechi rhyfel yn coffáu cyn-ddisgyblion ysgol Tregaron a gollodd eu bywydau'n ymladd yn y ddau Ryfel Byd, argymhellir y byddai'n addas adleoli'r coflechi yn Ysgol Henry Richard gan y byddant yn parhau i godi ymwybyddiaeth ymhlith y disgyblion presennol a disgyblion y dyfodol am yr aberth a wnaed gan gyn-ddisgyblion a byddai'r coflechi'n cael eu gweld, a'r meirw'n cael eu cofio, gan y gymuned leol ehangach am genedlaethau i ddod.

3.2 Byddai angen cael caniatâd yr ysgol i'w hadleoli yn Ysgol Henry Richard, fodd bynnag, gan fod y Pennaeth eisoes wedi awgrymu y dylid rhoi'r coflechi ym mhrif neuadd yr ysgol gobeithir na fyddai hyn yn peri unrhyw broblemau. Byddwn yn gofyn am gadarnhad oddi wrth y Pennaeth a bydd diweddariad yn cael ei roi ar lafar i'r Pwyllgor ar y diwrnod.

3.3 Mae'r Gwasanaethau Cyllid wedi nodi cyllideb i dalu am dynnu'r coflechi a'u hadleoli, a bydd y gwaith hwn yn cael ei dalu'n gorfforaethol gan y Cyngor gan nad oes cronfa ymddiriedolaeth yn gysylltiedig â'r coflechi i dalu am gostau o'r fath.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad / Argymhellion:** | **Cymeradwyo adleoli'r coflechi rhyfel yn Ysgol Henry Richard a dirprwyo pwerau i swyddogion gytuno ar yr union leoliad o fewn yr ysgol gydag Ysgol Henry Richard.** |
| **Rhesymau dros y penderfyniad:** | **Er mwyn galluogi i genedlaethau'r dyfodol weld y coflechi rhyfel a chofio cyn-ddisgyblion Tregaron a gollodd eu bywydau yn y ddau Ryfel Byd.** |
| **Atodiadau:** | **Atodiad 1 – Canlyniad yr Ymgynghoriad.** |
| **Pennaeth y Gwasanaeth:** | **Elin Prysor – Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu** |
| **Swyddog Adrodd:** | **Louise Harries – Cyfreithwraig** |
| **Dyddiad:** | **29/11/2021** |


**Atodiad 1 – Canlyniad yr Ymgynghoriad**

1. Cafwyd 72 ymateb i'r ymgynghoriad, 71 drwy'r ffurflen ymgynghori ar-lein ac 1 drwy e-bost. Ffocws yr ymgynghoriad oedd y cwestiwn:

   "*Nodwch le rydych chi'n meddwl byddai'n lleoliad newydd addas ar gyfer y ddwy goflech ryfel.*"

   Roedd y cwestiwn yn eithaf agored felly roedd y cyhoedd yn gallu gwneud unrhyw awgrymiadau a oedd yn addas yn eu tyb nhw.

2. Roedd yr ymatebion yn dod o dan y categorïau isod:




Roedd y categori 'Awgrymiadau lluosog' sydd ar y siart cylch yn cynnwys ymatebion a oedd wedi awgrymu mwy nag un lleoliad. Roedd y rhain yn cynnwys yr ymatebion canlynol:

- Capel Bwlchgwynt neu Eglwys Tregaron (1 ymateb);
- Ysgol Henry Richard neu Eglwys Tregaron (2 ymateb);
- Neuadd Goffa Tregaron neu Ysgol Henry Richard (3 ymateb);
- Gellir lleoli ardal werdd gymunedol uwchben y maes parcio a Coffi a Bara ac ati i ddangos hanes Tregaron a'r coflechi rhyfel NEU gellir cadw hen adeilad yr ysgol fel amgueddfa fach NEU gellir creu ardal i goffáu'r rhyfeloedd ar hyd y ffordd wledig ger Tregaron, ger yr ysbyty efallai (1 ymateb);
- Amgueddfa Ceredigion neu Lyfrgell Genedlaethol Cymru (1 ymateb);
- Neuadd Goffa Tregaron neu Gapel Bwlchgwynt (1 ymateb).

3. Yn ogystal â'r ymatebion i'r ymgynghoriad, cadarnhaf fod Pennaeth Ysgol Henry Richard wedi awgrymu y gellid rhoi'r coflechi rhyfel ar wal neuadd yr ysgol. Mae hyn yn cyd-fynd â dymuniadau'r Pwyllgor Cyn-ddisgyblion.

4. Fel y gwelwch o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae dros hanner yr ymatebion yn awgrymu y dylid adleoli'r coflechi rhyfel yn Ysgol Henry Richard.